ASTUDIAETH ACHOS, DOCUMENT

# Adferiad Maethlon Bwyd Cynaliadwy, Lleol ar gyfer Canolfan Ganser Felindre: PDF

Adferiad Maethlon Bwyd Cynaliadwy, Lleol ar gyfer Canolfan Ganser Felindre

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 17 Awst 2026

**Diweddarwyd diwethaf:** 17 Awst 2026

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/adferiad-maethlon-bwyd-cynaliadwy-lleol-ar-gyfer-canolfan-ganser-felindre-pdf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

# Ar y dudalen hon

Trosolwg

Cenhadaeth Fwyd Felindre: Galluogi system fwyd sy’n barod ar gyfer Cenedlaethau’r Dyfodol yng:

Cefndir: Ail-lunio Bwyd mewn Gofal Canser

Amcanion y Prosiect

Uchafbwyntiau Strategol

Canlyniadau a’r Camau Nesaf

Model ar gyfer Lleoliadau Gofal Iechyd Eraill

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/adferiad-maethlon-bwyd-cynaliadwy-lleol-ar-gyfer-canolfan-ganser-felindre-pdf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

# Trosolwg

Mae Canolfan Gofal Canser Felindre, un o gyfleusterau trin canser mwyaf uchel ei barch Cymru, wedi mynd ati i ail-ddychmygu ei pherthynas â bwyd yn llwyr. Drwy ei Chenhadaeth Fwyd uchelgeisiol, mae'r Ganolfan yn anelu at ddarparu prydau bwyd maethlon o ansawdd uchel o ffynonellau lleol sy'n cefnogi nid yn unig cleifion, ond hefyd staff, ymwelwyr ac economi fwyd ehangach Cymru.

Nid yw gwariant GIG Cymru ar fwyd yn ddigon mawr i sbarduno newid yn y ffordd y mae'r system fwyd yn gweithio, ond gall chwarae rhan flaenllaw wrth sbarduno cyrchu bwyd yn y sector cyhoeddus a systemau bwyd ehangach – mewn cyfeiriad sy'n gyfrifol yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol, gan sbarduno canlyniadau iechyd a lles gwell.

Dim ond Cymru sydd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd yn herio'r sector cyhoeddus i ystyried dulliau cyfannol o ymdrin â'r materion hyn, ac yn darparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer gwneud cynnydd.

Mae gan Felindre genhadaeth fwyd sy'n targedu cynyddu'r cyflenwad o fwyd lleol, iach, o ansawdd da, ac sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol er mwyn gwella lles cleifion, staff a'u teuluoedd. Ymhellach, mae hyn yn cyfrannu at Strategaethau Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth, Arloesi, Datgarboneiddio, Gweithlu a Chynaliadwyedd Felindre yn ogystal â nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn cyfrannu at yr uchelgais i gyrraedd Sero Net erbyn 2030.

# Cenhadaeth Fwyd Felindre: Galluogi system fwyd sy'n barod ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol yng:

Erbyn 2035 bydd o leiaf 70% o fwyd a gaffaelir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre o Gymru, yn gyfeillgar i'r amgylchedd neu'n gyfrifol yn fyd-eang. Mae gan ein pobl fynediad at fwyd fforddiadwy ac iach.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**

Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/adferiad-maethlon-bwyd-cynaliadwy-lleol-ar-gyfer-canolfan-ganser-felindre-pdf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

**gwybdaeth am hawlfraint**

Mae prosiect Busnes Cymru, Bwyd a Diod yn y Sector Cyhoeddus, a ariennir yn llawn gan dîm Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru, wedi comisiynu Busnes Cymru i bartneru â Felindre a’r Dietegydd, Beca Lyne-Pirkis i ddechrau’r camau cyntaf tuag at gyflawni nodau Cenhadaeth Fwyd Felindre. Ers hynny, cynhaliwyd asesiad cychwynnol o fwydlen Felindre, ac ychwanegwyd atodiadau buddugoliaethau cyflym at y fwydlen, gan gynnwys bwydlen ‘Wythnos Gymreig’ i staff ac ymwelwyr yn Felindre.

## Cefndir: Ail-lunio Bwyd mewn Gofal Canser

Mae cyfleuster presennol Felindre yn cael ei ddisodli gan ganolfan newydd, wedi’i hadeiladu’n bwrpasol. Fel rhan o’i strategaeth i’r dyfodol, cyflwynodd y sefydliad Genhadaeth Fwyd—ymrwymiad trawsadrannol i wneud bwyd yn fwy cynaliadwy, maethlon, ac o ffynonellau lleol. Mae’r genhadaeth hon yn cydnabod rôl bwerus bwyd o ran:

- Cefnogi adferiad a lles cleifion
- Cynnal staff gweithgar y GIG drwy sifftiau hir
- Darparu cysur a chymuned i ymwelwyr
- Cefnogi cynhyrchwyr bwyd Cymru
- Lleihau gwastraff bwyd a datgarboneiddio cadwyni cyflenwi

“Ni ddylai bwyd fyth fod yn ystyriaeth olaf mewn gofal iechyd,” meddai Beca Lyne-Pirkis. “Mae’n hanfodol i adferiad cleifion, i forâl, ac i’r gymuned. Mae’r prosiect hwn yn gadael inni feddwl yn wahanol am fwyd fel maeth, fel cysur, ac fel offeryn ar gyfer newid.”

## Amcanion y Prosiect

Canolbwyntiodd cam cychwynnol y prosiect ar:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**
Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/adferiad-maethlon-bwyd-cynaliadwy-lleol-ar-gyfer-canolfan-ganser-felindre-pdf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
**gwybdaeth am hawlfraint**

- Adolygu bwydlenni a gwasanaethau cyfredol o fewn cyfleuster presennol Felindre
- Ymgynghori â chleifion, staff, dietegwyr, therapyddion lleferydd ac iaith, a gweithwyr proffesiynol caffael
- Mapio cyfleoedd i integreiddio mwy o gynhyrchwyr bwyd Cymru i'r gadwyn gyflenwi
- Cynllunio ar gyfer seilwaith arlwyo a chegin y dyfodol ar safle newydd Felindre
- Nodi enillion cyflym y gellid eu rhoi ar waith ar unwaith yn y cyfleuster presennol
- Amlinellu nodau tymor hwy, gan gynnwys datblygu ryseitiau, hyfforddi staff, diwygio caffael, a chynaliadwyedd

## Uchafbwyntiau Strategol

### Dull System Gyfan ar gyfer Bwyd

Yn hytrach na thrin arlwyo fel gwasanaeth annibynnol, mae Felindre yn ymgorffori bwyd yn ei chynllunio strategol ehangach, o lwybrau gofal i allgymorth cymunedol. Mae'r genhadaeth fwyd wedi'i chysylltu'n ddwfn â chynaliadwyedd, lles y gweithlu, a phrofiad cleifion

### Bwydlenni o Ffynonellau Tymhorol sy'n cael eu Hysgogi gan Faeth

WGan weithio gyda chlinigwyr a dietegwyr, adolygodd Beca y cynigion presennol a dechrau cynllunio bwydlenni newydd a fyddai'n blaenoriaethu:

- Cynhwysion a dyfir ac a gynhyrchir y ng Nghymru
- Ffrwythau, llysiau, pysgod a chigoedd tymhorol
- Bwydlenni arbenigol ar gyfer cleifion ag anghenion penodol (e.e. prydau sy'n addas ar gyfer dysffagia)
- Bwydlen 24 awr ar gyfer cleifion ag archwaeth afreolaidd oherwydd triniaeth

"Nid seren Michelin yw'r nod," eglurodd Beca, "Mae'n ymwneud â chreu bwyd sy'n flasus, yn gysurus, ac yn fuddiol i bobl sy'n mynd trwy rai o'r cyfnodau anoddaf yn eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**
Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/adferiad-maethlon-bwyd-cynaliadwy-lleol-ar-gyfer-canolfan-ganser-felindre-pdf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
**gwybdaeth am hawlfraint**

bywydau."

### Buddugoliaethau Cynnar gyda Gweledigaeth Hirdymor

Drwy'r cyfnod ymgynghori, llwyddodd Felindre i weithredu gwelliannau bach ond ystyrlon "enillion cyflym" sy'n gwella'r cynnig bwyd presennol wrth baratoi'r ffordd ar gyfer y trawsnewidiad mwy pan fydd y safle newydd yn agor.

### Paratoi ar gyfer Diwygio Gwaith Caffael

Un o agweddau mwyaf heriol a hanfodol y prosiect yw caffael y GIG. Gweithiodd Beca gyda thimau caffael Felindre i ddechrau archwilio:

- Sut i gynnwys cynhyrchwyr lleol mewn cadwyni cyflenwi
- Sut i fodloni safonau'r GIG a rheoliadau diogelwch bwyd
- Yr hyfforddiant a'r ymsefydlu sydd eu hangen ar gyfer staff cegin ac arlwyo
- Partneriaethau â sefydliadau fel Busnes Cymru a Menter Môn i gefnogi parodrwydd cynhyrchwyr Cymru

## Canlyniadau a'r Camau Nesaf

Gyda'r cyfnod ymgynghori wedi'i gwblhau, mae Felindre a Busnes Cymru bellach yn symud i'r cam nesaf, gan alinio caffael, datblygu ryseitiau, a chwblhau'r model cegin a dan arweiniad cogydd ar gyfer y safle newydd.

Mae nodau'r dyfodol yn cynnwys

- Integreiddio cynhyrchwyr bwyd Cymru yn llawn ar draws categorïau craidd
- Model cegin newydd dan arweiniad cogydd ar gyfer coginio prydau ffres ar y safle
- Hyfforddiant staff ynghylch cynaliadwyedd bwyd, natur dymhorol a maeth
- Caffi ymwelwyr a lle cymunedol croesawgar o ansawdd uchel

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**
Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/adferiad-maethlon-bwyd-cynaliadwy-lleol-ar-gyfer-canolfan-ganser-felindre-pdf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
**gwybdaeth am hawlfraint**

- Creu digwyddiadau â thema a gwasanaethau cynhyrchu refeniw sy’n cefnogi cangen lusen Felindre

## Model ar gyfer Lleoliadau Gofal Iechyd Eraill

Mae Cenhadaeth Fwyd Felindre yn fwy na dim ond uwchraddio arlwyo, mae’n gynllun ar gyfer sut y gallai’r GIG yng Nghymru drawsnewid bwyd fel rhan o ofal cyfannol i gleifion. Mae’n dwyn ynghyd flaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol: iechyd, cynaliadwyedd, gwydnwch economaidd lleol, a lles cymunedol

“Nid dim ond bwydo cleifion ydan ni,” meddai Beca. “Rydym yn adeiladu diwylliant o fwyd sy’n Gymreig, sy’n ofalgar, ac sydd wedi’i adeiladu i bara.”

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o BUSNES.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar**
Ewch i **https://busnescymru.llyw.cymru/dogfennau/adferiad-maethlon-bwyd-cynaliadwy-lleol-ar-gyfer-canolfan-ganser-felindre-pdf** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
**gwybdaeth am hawlfraint**